Councillor Jones' supplementary question was how soon would Members know about changes to leisure centres and would the possible introduction of the Living Wage affect the proposals. The Portfolio Holder explained that the business case was being developed and that if the Living Wage was adopted this would be built in as TUPE would apply to all transferring staff.

12.15 Question to the Portfolio Holder for Adult Social services from County Councillor David Jones

By when does the Cabinet member envisage all Day Care Centres in Powys being staffed and ran by volunteers?

Work is underway with a range of voluntary sector organisations (and a Town Council) to identify the most appropriate service delivery mechanism for their local day centre. In the service efficiency plan (as part of the medium term financial plan) Council agreed that during 2014/15 three day centres would be externalised, followed by a further two in 2015/16 and the last two centres in 2016/17. We anticipate that volunteer resources will provide a significant resource in the delivery of the day centres, alongside paid professional workers. These options are currently being developed as our partner organisation are developing their business plans for the sustainable delivery of day centre services.

In answer to Councillor Jones' supplementary question on when would the Council know which three centres would be externalised, the Portfolio Holder explained that consultation was going on with local Members in Newtown, Welshpool and Crickhowell.

12.16 Question to the Portfolio Holder for HR, ICT and Communications from County Councillor David Jones

Will the Portfolio Holder give details of the publicity provided by his department prior to the county-wide consultation on ALN and is he satisfied that everyone had enough information to make a meaningful contribution to the proposed changes?

County Councillors M.A. Alexander, J.R. Jones and D.J. Mayor declared personal and prejudicial interests and left the meeting while this matter was being discussed.

ALN Consultation Publicity

The information below lists the work carried out to raise awareness of the ALN consultation and the meetings held. (The consultation period ran from 3rd February, 2014 to 17th March, 2014.)

Direct Correspondence

Primary and secondary headteachers were informed at a conference held prior to the consultation period that the consultation would start on February 3rd.

On the 3rd February, letters were sent to parents of primary and secondary school pupils (via the schools) highlighting the consultation. Parents were referred to the consultation document online or to their local school which was provided with a paper copy. Additionally, the letter invited parents to contact the Schools Service for a paper copy if they preferred.

Letters were also sent to schools and governors the same week, along with a large number of other stakeholders, including trade unions, local politicians, all community and town councils in the county, any third parties involved in ALN provision, Welsh Government and neighbouring authorities.

Media

Media enquiries

The council started to receive media enquiries on the subject on 5 February and has received six in total. Below is the breakdown:

- **6/2/14 South Wales Evening Post Online**

12-year-old Swansea Valley autistic girl writes heartfelt letter to save special education units

A Swansea Valley girl with autism has written an open letter to councillors in a heartfelt plea to save several special education units from closure...

[Reactive statement provided]

- **6/2/14 BBC Online**

Fears over Powys education units closure proposals

Protest groups have criticised a council's move to close specialist units for children with additional learning needs in Powys...

[Reactive statement provided]

- **7/2/14 Western Mail**

Pg 14 – Protestors aim to block school cuts

Thousands of people have signed an online petition fighting plans to shut all units for children with additional learning needs at schools in Powys...

[Reactive statement provided]

- **14/2/14 County Times**

Pg 2 – ‘Lifeline’ blow to special needs children

Children with special needs will be denied “an absolute lifeline” if council plans to close specialist units are approved, say parents...

[Reactive statement provided]

The following information was provided in response to the above four enquiries:

“The council is proposing changing the way it provides education for children between the ages of 3 and 11 with Additional Learning Needs (ALN).

The proposals have been developed following the Estyn inspection of the council in 2011 and its follow up visit in 2012 which found ‘important shortcomings’ in our existing ALN provision.

Our consultation document can be found by visiting www.powys.gov.uk/haveyoursay

Anyone wishing to comment on the proposals have until 5pm on Monday 17 March to do so.”

Another two media enquiries were received, see below:

- **11/3/14 BBC Wales – ALN Update**
- **11/3/14 ITV Wales – ALN Update**

The following statement was provided in response to the above two enquiries:

Powys County Council Cabinet Member, Councillor Graham Brown said:

“Consultation on the proposed changes to the way education is delivered for primary age children who have Additional Learning Needs (ALN) will end on Monday (March 17). The funding proposals for the service identified as part of the annual budget process have been removed by the council with the shortfall met from general reserves.

“Feedback and analysis from the consultation exercise will be reported back to the cabinet for further discussion. No date has yet been set for that discussion.”

News releases

PR 5943 – Views sought on ALN education proposals (see copy release at Appendix 1)

This news release was issued on 13 February 2014 and was sent to the following media outlets:

- *Hereford Times*
- *Radio Hafren*
- *BBC Online*
- *MyNewtown*
- *Daily Post*
- *Mid Wales Journal*
- *South Wales Evening Post*
- *Western Mail*
- *Shropshire Star*

Coverage

• **18/2/14 Hereford Times Online**

*Changes for Hay-on-Wye's Additional Learning Needs youngsters
Big changes in the way children with Additional Learning Needs are educated in Hay-on-Wye are being planned from September...
[Pro-active news release]*

• **27/2/14 Hereford Times**

*Pg 26 – Pupils with ALN ‘may go to local school’
Big changes in the way children with Additional Learning Needs (ALN) are educated in Hay-on-Wye are being planned...
[Pro-active news release]*

PR 5947 - Further ALN information published (see Appendix 1)

This news release was issued on 19 February 2014 and was sent to the following media outlets:

- *Hereford Times*
- *Shropshire Star*

- *BBC Online*
- *MyWelshpool*
- *ITV Wales*
- *County Times*
- *Cambrian News*
- *Oswestry & Border Chronicle*
- *Daily Post*
- *Mid Wales Journal*
- *BBC Newsgathering Wales*
- *South Wales Evening Post*
- *MyNewtown*
- *Western Mail*
- *Brecon & Radnor Express*

Coverage

- **27/2/14 Brecon and Radnor Express**

*Pg 3 – Campaigners step up specialist units fight
Further information on specialist education units proposed for closure has been published by Powys County Council...
[Pro-active news release]*

- **28/2/14 County Times**

*Pg 4 – Have your say on schools
Powys County Council (PCC) has published further information on additional learning needs (ALN) provision in the county's primary schools...
[Pro-active news release]*

- **6/3/14 Cambrian News**

*Front Page – Threat to two special needs units (continues on page three)
Special education support units at primary schools in Machynlleth and Llanidloes will close, if a Powys County Council plan to save almost £500,000 a year goes ahead...
[Pro-active news release]*

- **12/3/14 Brecon and Radnor Express Online**

*Powys learning needs consultation deadline looms
A consultation on closing specialist units at Powys primary schools closes this week...
[Pro-active news release]*

- **13/3/14 Brecon and Radnor Express**

Pg 2 – ALN deadline

A consultation on closing specialist units at Powys primary schools closed this week...

[Pro-active news release]

- **14/3/14 County Times**

Pg 2 – Consultation

A consultation on closing specialists units at Powys primary schools closes this week...

[Pro-active news release]

Another nine media articles appeared on the matter. The council was not given the opportunity to provide a comment on the articles below.

- **6/2/14 Brecon and Radnor Express**

Front Page – Fears over school units

Parents of children who require dedicated support in school have hit out at plans to close specialist units within primary schools in Powys...

[Article refers to Powys County Council]

- **7/2/14 County Times**

Pg 2 – Fury at threat facing special needs units

Concerns have been raised over council plans to shut units for children with additional learning needs...

[Article refers to Powys County Council]

- **10/2/14 County Times Online**

Fury at threat facing special needs units

Concerns have been raised over council plans to shut units for children with additional learning needs...

[Article refers to Powys County Council]

- **10/2/14 News North Wales Online**

Fury at threat facing special needs units

Concerns have been raised over council plans to shut units for children with additional learning needs...

[Article refers to Powys County Council]

- **13/2/14 Brecon and Radnor Express**

Pg 2 – Schools campaigner to meet AMs

A campaigner fighting plans to close specialist learning needs units in Powys is due to meet with Assembly Members...
[Article refers to Powys County Council]

- **14/2/14 County Times**

Front Page – Special needs units are a lifeline
Children with special needs will be denied “an absolute lifeline” if council plans to close specialist units are approved, say parents...
[Article refers to Powys County Council]

- **14/2/14 Mid Wales Journal**

Front Page – Concern at bid to axe learning needs units
Concerns have been raised over council plans to shut units for children with additional learning needs in Powys...
[Article refers to Powys County Council]

- **22/2/14 Western Mail**

Pg 19 – Protest to save primary units
Parents are staging a mass lobby of Powys County Council headquarters to protest against plans to shut specialist units at schools in the county...
[Article refers to Powys County Council]

- **5/3/14 Cambrian News Online**

Threat to two special needs units
Special education support units at primary schools in Machynlleth and Llanidloes will close, if a Powys County Council plan to save almost £500,000 a year goes ahead...
[Article refers to Powys County Council]

There were 21 media articles in total on the subject.

An article on the consultation also featured in print and online in the February edition of the council’s staff and member magazine, cyswllt:connect.

Online and social media

| <i>Date</i> | <i>Subject</i> |
|---------------|---|
| <i>3/2/14</i> | <i>Consultation launched via www.powys.gov.uk/haveyoursay. The consultation had its own page at http://www.powys.gov.uk/index.php?id=16906&L=0 and this is</i> |

| | |
|-------------------------|---|
| | <i>still accessible. The page now explains that the consultation has closed.</i> |
| <i>3/2/14 – 17/3/14</i> | <i>Consultation featured on carousel on front page of www.powys.gov.uk.</i> |
| <i>3/2/14</i> | <i>Facebook post re consultation</i> |
| <i>3/2/14</i> | <i>Twitter post re consultation</i> |
| <i>25/2/14</i> | <i>Twitter post re ALN Budget decision</i> |
| <i>26/2/14</i> | <i>Twitter post re consultation</i> |
| <i>26/2/14</i> | <i>Facebook post re consultation</i> |
| <i>26/2/14</i> | <i>Twitter post re additional info published online</i> |
| <i>26/2/14</i> | <i>Facebook post re further information published</i> |
| <i>3/3/14</i> | <i>Twitter post re young person's guide directing people to consultation page</i> |
| <i>12/3/14</i> | <i>Reminder of closing date via Twitter</i> |

Meetings

Meetings with all school councils (where there is a unit) took place within the consultation period and were led by the local headteacher or member of staff alongside a member of the Schools Service. A pre-prepared list of questions was used to try and ensure consistency. Pupils with ALN were amongst the school council members.

The Chief Executive, Cabinet Member responsible and Interim Head of Schools also met with the campaign group HOOSUP (Hands Off our Special Units Powys) in Llandrindod Wells.

Responses from stakeholders

The Schools Service received approximately 750 responses to the consultation from stakeholders

In answer to Councillor Jones' supplementary question as to whether the public had been given enough information to make a meaningful contribution to the consultation, the Portfolio Holder said that with over 750 responses he was content that they had.

12.17 Question to the Portfolio Holder for Education and Children's Services from County Councillor Avril York

Will the portfolio holder kindly inform us how many of our primary and secondary schools are being run by Acting Heads, how many of these Acting Heads have been in post for more than two terms and how many non-Heads hold or are working towards being NPQH qualified?

At the beginning of the Summer Term there are 18 primary schools with acting Headteachers, of these 18, 8 are sharing a Headteacher with another school.

There have been a number of recent appointments with the position predicted for September, 2014 that there will be 11 primary schools with acting Headteachers of which 6 will have a shared Headteacher.

There is currently one acting Headteacher in the secondary sector with the September position being none as this acting Headteacher has been appointed as Headteacher at the new all through school in Machynlleth.

In respect of NPQH, Powys had 7 applicants for the 2013-14 round with only 2 being accepted for assessment, one primary and one secondary.

General Teaching Council for Wales records identify that in Powys there are 41 who hold the NPQH since its inception in the late 1990's.

This is broken down to 2 in the special school sector, 15 in the secondary sector, 21 in the primary sector and 3 unidentified.

In answer to Councillor York's supplementary question on what plans there were to improve on the situation, the Portfolio Holder acknowledged that the Council was facing a leadership crisis in schools with many heads approaching retirement. The service was looking both to attract new applicants and to enable promotion from within by giving staff opportunities to gain management responsibility.

12.18 Question to the Portfolio Holder for Highways and Environmental Health from County Councillor Avril York

Will the portfolio holder kindly inform us of the number of prosecutions and the resultant legal costs, by annum, incurred by the Office of Fair Trading for prosecuting estate agents for failure of operating to the NTSEAT over the last three years?

I remind members that it is the role of all Trading Standards Services throughout the UK to investigate and, where appropriate, prosecute estate agents when they breach the Estate Agents Act 1979. This legislation also enables Trading Standards services to refer certain cases to our new National Estate Agents Team (NEAT) located within Powys County Council (the Office of Fair Trading has now ceased to exist from 1st April 2014) when it is deemed that an estate agent is unfit to trade and to request NEAT gives consideration as to whether to warn or ban such traders from being involved in the profession of Estate Agency. We therefore receive files, seek comments from the parties involved and administer a decision. These decisions are subject to appeals but the OFT in over 20 years had none that went to be heard in the Court of Appeal. Out of the 2014 banning decisions (listed below) 3 are confirmed as being banned, 3 have appealed and 5 are still within the appeal time frame.

In terms of previous actions, the Estate Agents Act 1979 requires that all activity is kept in a Public Register (web link in Appendix A below) and this shows for the last 3 years respectively, that 11, 10 and 10 estate agents have been banned by the OFT. We cannot state legal costs as these are not `prosecutions`. Clearly within the OFT internal legal support would have been allocated to these investigations and any data on this would have been held by the OFT and so exact figures are not now available. The National Trading Standards Board, in determining the £178K allocation to the local authority taking over this function, would have carefully evaluated the costs of running the service (including legal costs) and this was the basis for that allocation. We have also had confirmation that our grant allocation will not be subject to cuts over the next 3 years.

NEAT will be providing reports every 3 months to the portfolio holder for Regulatory Services, the NTSB Governance Board and has offered this to Scrutiny Committee. This offer remains in place.

The Leader undertook to provide Councillor York with an answer to her supplementary question as to whether the number of prosecutions would be limited by the budget provided by Government and if this was the case whether this would provide an effective monitoring regime.

| | | |
|-----|----------------|-------------|
| 13. | CORRESPONDENCE | CC51 – 2014 |
|-----|----------------|-------------|

13.1 Spare Room Subsidy

Council received a letter from Lord Freud, Minister for Welfare Reform sent in response to a letter from the Council on the Spare Room Subsidy.

13.2 Air Support in the Dyfed Powys Police Area

Council received a letter from the Rt. Hon. Damien Green MP, Minister of State for Policing and Criminal Justice sent in response to a letter from the Council on air support for Dyfed Powys Police.

RESOLVED that a further letter be sent expressing the Council's concerns that a fixed wing aircraft would not provide suitable cover in Powys.

L.R.E. DAVIES
Chair

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR SIR POWYS A GYNHALIUYD YN NEUADD
Y SIR, LLANDRINDOD, DDYDD MERCHER 30 EBRILL
2014**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Sir L.R.E. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir M.C. Alexander, P.J. Ashton, D. Bailey, G.R. Banks, G. Bowker, R.G. Brown, L. Corfield, K.W. Curry, A.W. Davies, C. Davies, D.E. Davies, E.R. Davies, M.J.B. Davies, S.C. Davies, S. Davies, M.J. Dorrance, D.O. Evans, V.E. Evans, W.J. Evans, W.A. Fitzpatrick, M.R. Harris, S.M. Hayes, A. Holloway, J.C. Holmes, G.G. Hopkins, D.C. Jones, D.R. Jones, E. Michael Jones, Eldrydd M. Jones, G.M. Jones, J.R. Jones, M.J. Jones, W.T. Jones, F.H. Jump, H. Lewis, P.E. Lewis, M.C. Mackenzie, D.J. Mayor, S. McNicholas, P.J. Medlicott, D.W. Meredith, R.H. Mills, E.T. Morgan, G. Morgan, J.G. Morris, D.R. Price, G.D. Price, G.W. Ratcliffe, K.M. Roberts-Jones, J.G. Shearer, K.S. Silk, K.F. Tampin, A.G. Thomas, D.G. Thomas, D.A. Thomas, R.G. Thomas, W.B. Thomas, T.G. Turner, T.J. Van Rees, G.P. Vaughan, D.H. Williams, G. Williams, J.M. Williams, S.L. Williams ac A. York.

| | | |
|-----------|-----------------------|-------------------|
| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC38– 2014 |
|-----------|-----------------------|-------------------|

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir J.H. Brunt, R.I. George, P. Harris, G.M. Jones, W.D. Powell, W.J.T. Powell a P.C. Pritchard.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Cadeirydd, y Cynghorydd Sir John Brunt, wedi mynd yn wael, a gwnaethant ofyn am i'w dymuniadau gorau gael eu cyfleu iddo.

| | | |
|-----------|---------------------------------|--------------------|
| 2. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB | CC39 – 2014 |
|-----------|---------------------------------|--------------------|

Cafwyd datganiadau o ddiddordebau personol ac ariannol gan y Cynghorwyr Sir M.C. Alexander, R.G. Brown ac M.R. Harris o ran eitem CC48 – 2014 Diwygiadau i'r Cyfansoddiad yng nghyswllt dirprwy arweinwyr.

Cafwyd datganiadau o ddiddordebau personol a rhagfarnus gan y Cynghorwyr Sir M.A. Alexander, J.R. Jones a D.J. Mayor o ran y ddau gwestiwn sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhoddodd y Cynghorydd Sir W.B. Thomas wybod bod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi caniatâd arbennig iddo siarad ar faterion ffeithiol o ran anghenion dysgu ychwanegol, ond nid i bleidleisio.

| | | |
|-----------|------------------|--------------------|
| 3. | COFNODION | CC40 – 2014 |
|-----------|------------------|--------------------|

Awdurdodwyd y Cadeirydd i arwyddo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 25 Chwefror, y cyfarfod wedi'i ailgynnull ar 5 Mawrth a'r cyfarfod ar 5 Mawrth yn gofnodion

cywir, yn amodol ar ddileu'r gair "in" o dudalen 4, eitem 4, trydydd paragraff, seithfed linell cofnodion 25 Chwefror.

| | | |
|-----------|---------------------------------|--------------------|
| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC41 – 2014 |
|-----------|---------------------------------|--------------------|

Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Van Rees i'r Is-gorporal Oliver Thomas o'r Corfflu Cudd-wybodaeth, a oedd yn hanu o Aberhonddu ac a oedd yn un o'r pum milwr a laddwyd mewn trawiad hofrennydd yn Affganistan ar 26 Ebrill.

Nododd y Cadeirydd fod uned lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Llanfair-ym-Muallt wedi'i rhoi ar y rhestr fer i gael gwobr adfywio oherwydd ei gwaith gyda phrentisiaid.

Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau o'r seminar a gynhelir i'r Cyngor ar 2 Mai ynghylch y Gyllideb, a rhoddodd wybod bod un o gerbydau ailgylchu newydd y Cyngor y tu allan er mwyn i'r Aelodau ei archwilio.

| | | |
|-----------|---------------------------------------|--------------------|
| 5. | CYHOEDDIADAU'R PRIF WEITHREDWR | CC42 – 2014 |
|-----------|---------------------------------------|--------------------|

Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod fod cadarnhad y byddai ras feicio *Tour of Britain* yn dychwelyd i Bowys ym mis Medi ac y byddai taith gyfnewid Baton y Frenhines ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn ymweld â Llandrindod ar 25 Mai a Machynlleth ar 28 Mai. Atgoffodd yr Aelodau o'r etholiadau Ewropeaidd ar 22 Mai ac y byddai'r cyfrif yn digwydd ar 25 Mai. Nododd fod y Cyngor wedi cael ei ganmol am y safle newydd i Sipsiwn a Theithwyr yn Nôl y Brenin, a agorwyd gan y Gweinidog Cymunedau ar 9 Ebrill.

| | | |
|-----------|---|--------------------|
| 6. | ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CABINET | CC43 – 2014 |
|-----------|---|--------------------|

Trosglwyddiadau Cyfalaf

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhellion cyfarfod y Cabinet ar 1 Ebrill ynghylch trosglwyddiadau sy'n uwch na £300,000.

| PENDERFYNWYD | Y Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|---|
| Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir yn yr atodlen sydd wedi'i ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd. | Fel sy'n ofynnol yn y rheolau sefydlog ariannol. |

| | | |
|-----------|----------------------------|--------------------|
| 7. | CYNLLUN POWYS YN UN | CC44 – 2014 |
|-----------|----------------------------|--------------------|

Bu'r Cyngor yn trafod Cynllun Powys yn Un a oedd yn ymglyfuno Cynllun Newid Powys â chynllun partneriaid y Cyngor ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Gofynnodd yr Aelodau am lefel ymrwymiad y sefydliadau eraill ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Rhoddwyd gwybod iddynt fod Bwrdd lechyd addysgu Powys wedi ymrwymo'n llwyr iddo ac wedi'i fabwysiadu mewn cyfarfod yn gynharach yn y mis. Roedd yn dal yn

ofyniad gan Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei gynllun tair blynedd ei hun ond fe'i cynlluniwyd i gyd-fynd â Chynllun Powys yn Un.

Gofynnodd yr Aelodau am agweddau amrywiol ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun. Crybwyllwyd y ddarpariaeth o wasanaeth ychwanegol ar reilffordd Calon Cymru ond nad oedd yn cynnwys y rhan o'r rheilffordd rhwng Llanwrtyd a Llandrindod. Cytunwyd y dylai'r Cyngor grybwyll hyn wrth y gweithredwyr a chytunodd yr Arweinydd i ysgrifennu llythyr yn galw am i'r gwasanaeth ychwanegol gael ei ymestyn ar hyd y lein gyfan.

| PENDERFYNWYD | Y Rheswm dros y Penderfyniad |
|--|--|
| Cymeradwyo Cynllun Powys yn Un 2014-17. | Er mwyn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. |

Gadawodd y Cynghorydd Sir L. Corfield y cyfarfod.

| | | |
|-----------|--------------------------------------|--------------------|
| 8. | COFRESTRU PLEIDLEISWYR UNIGOL | CC45 – 2014 |
|-----------|--------------------------------------|--------------------|

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan Mark Hughes, Cyfarwyddwr Prosiectau y Rhaglen Trawsnewid Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfa Gabinet. Testun y cyflwyniad oedd cyflwyno trefniadau ynghylch cofrestru pleidleiswyr unigol o 10 Mehefin 2014.

Gadawodd y Cynghorydd Sir G. Morgan y cyfarfod. Ymunodd y Cynghorydd Sir J.R. Jones â'r cyfarfod.

| | | |
|-----------|--|--------------------|
| 9. | ARGYMHELLION ODDI WRTH Y PWYLLGOR SAFONAU | CC47 – 2014 |
|-----------|--|--------------------|

Bu'r Pwyllgor yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Safonau ynghylch penodi aelod annibynnol (lleyg) o'r Pwyllgor a lefel y terfyn uchaf o ran hawliadau indemniad yr Aelodau.

| PENDERFYNWYD | Y Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|---|
| Penodi Mrs Claire Jackson yn Aelod Annibynnol (Lleyg) am gyfnod o 6 blynedd o 22 Mehefin 2014. | Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion o ran cael aelodau Annibynnol (Lleyg) o'r Pwyllgor Safonau fel sy'n ofynnol yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd). |
| Bod terfyn uchaf hawliadau indemniad yn cael ei bennu i Gyngor Sir Powys yn £50,000. | Er mwyn cydymffurfio â chais yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus am derfyn uchaf ar hawliadau indemniad Aelodau. |

| | | |
|------------|------------------------------------|--------------------|
| 10. | DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD | CC48 – 2014 |
|------------|------------------------------------|--------------------|

Cafwyd datganiadau o ddiddordebau personol ac ariannol gan y Cynghorwyr Sir M.C. Alexander, R.G. Brown ac M.R. Harris o ran diwygiadau i'r Cyfansoddiad yng nghyswllt dirprwy arweinwyr, a gwnaethant adael y cyfarfod tra bo'r eitem hon yn cael ei thrafod.

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried diwygiadau i Erthygl 7 mewn cysylltiad â'r Cabinet ac Erthygl 12 mewn cysylltiad â swyddogion. Gofynnwyd cwestiynau am y cyflog uwch swyddogion sy'n daladwy i Ddirprwy Arweinwyr.

| PENDERFYNWYD | Y Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|---|
| Gohirio ystyriaethau ynghylch Erthygl 7. | Fel y gellir cael darlun cliriach ynghylch cwestiynau am dalu cyflogau uwch swyddogion i Ddirprwy Arweinwyr. |

Bu'r Cyngor yn ystyried diwygiadau i Erthygl 12 o'r Cyfansoddiad i ymgorffori newidiadau i swyddogaethau mewn cysylltiad â rhai materion priffyrdd, cyfrifoldebau yr ymgymeryd â hwy ar gyfer y Swyddogaeth Orfodi Genedlaethol ym maes Gwerthwyr Tai a rhai penodiadau diweddar.

| PENDERFYNWYD | Y Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|--|
| Bod Erthygl 12 ddiwygiedig – Swyddogion yn cael ei chymeradwyo i'w chynnwys yn y Cyfansoddiad presennol. | Er mwyn diweddarau Cyfansoddiad presennol y Cyngor a gwneud diwygiadau brys iddo. |

| | | |
|------------|----------------------------|--------------------|
| 11. | RHYBUDDION O GYNNIG | CC49 – 2014 |
|------------|----------------------------|--------------------|

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gynllun statudol pwysig y mae angen i Aelodau'r Cyngor Sir gael perchnogaeth lawn ohono, gan mai dyma yw'r cynllun y bydd rhaid i Aelodau weithio oddi mewn iddo, wythnos ar ôl wythnos, hyd at 2025. Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn llwyr ymwybodol o waith caled y Tîm Polisi Cynllunio wrth geisio diwallu gofynion yr amserlen a nodir yn y Cytundeb Cyflwyno diwygiedig, yn enwedig o ystyried y dyddiad cau a osodwyd i'r cynllun fynd ar adnau. Fodd bynnag, rydym yn bryderus am ddiffyg cysylltiad Aelodaeth ehangach y Cyngor gyda'r cynllun hwn, sydd wedi cael ei gyfyngu hyd yn hyn i un seminar bore, pan mai dim ond pedwar adran anghyflawn o'r cunllun a gyflwynwyd, gydag ychydig iawn o gyfleoedd am gwestiynau a dim cyfle i drafod y cynllun a materion y cynllun. Rydym yn bryderus hefyd mai ychydig iawn o gyfle sydd erbyn hyn ar gyfer cynnal trafodaeth ehangach o fewn yr amserlen a gynllunnir, gan fod y cynllun i fynd ymlaen at y Cabinet ac i'w gytuno'n derfynol yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor ar 14 Mai. Rydym felly'n cynnig y dylid galw ar Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor, gyda diwrnod llawn yn cael ei ddyrannu, i Aelodau dderbyn cyflwyniad llawn ar y Cynllun Datblygu Lleol a thrafod holl faterion y cynllun yn llwyr, cyn i'r cynllun fynd ar adnau.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir W.T. Jones

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir S.M. Hayes

Croesawodd y Cynghorydd Jones y ffaith fod cyfarfod arbennig wedi'i drefnu a fyddai'n cael ei gynnal ar 27 Mai, gan y byddai'n rhoi cyfle i bawb gael dweud eu dweud ar y Cynllun Datblygu Lleol.

PENDERFYNWYD cefnogi'r rhybudd o gynnig.

| | | |
|------------|--|--------------------|
| 12. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD | CC50 – 2014 |
|------------|--|--------------------|

12.1 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol, TG a Chyfathrebu oddi wrth y Cynghorydd Sir Huw Williams

Faint o wasanaethau Cyngor Sir Powys sydd wedi dynodi y byddant yn recriwtio prentisiaid yn y flwyddyn ariannol newydd?

Hyd yma nid oes yr un gwasanaeth wedi nodi ei fod yn bendant yn gallu recriwtio prentisiaid ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Fodd bynnag, mae'r Rheolwr Dysgu a Datblygu Corfforaethol a'i thîm yn parhau i weithio gyda Phenaeithiaid y Gwasanaethau – Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Busnes a Phrifyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu – i ganfod cyfleoedd posibl i fynd i'r afael â bylchau sydd wedi'u creu ar ôl i staff adael yn ddiweddar.

Mae ymweliad gan Ken Skates, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, i edrych ar waith Academi Ieuencid Powys, i'w gynnal ar 5 Mehefin. Y gobaith yw y gellir tynnu sylw bryd hynny at y ffaith nad yw'r sector cyhoeddus yn gallu cael gafael ar gyllid yn yr un modd ag y gallai cyflogwyr y sector preifat i gefnogi'r broses o gyflogi prentisiaid. Er nad oes rhaid talu am hyfforddiant yr holl brentisiaid, dim ond i'r sector preifat y mae cyllid ar gael i gefnogi'r broses o recriwtio pobl ifanc e.e. rhaglenni Recriwtiaid Ifanc. Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw hon, sy'n cynnig cymhorthdal cyflog (£50 yr wythnos) ym mlwyddyn gyntaf cyfnod cyflogaeth y prentis.

Mae elfennau eraill o'r prosiect yn mynd rhagddynt yn dda; mae gwasanaethau'n cynnig cyfleoedd profiad gwaith ar lefel yr ysgol a'r coleg, ar lefel wirfoddol ac ar lefel y Ganolfan Byd Gwaith i bobl ifanc ar draws yr awdurdod. Hyd yma, mae 15 lleoliad wedi'u cadarnhau ar gyfer disgyblion blwyddyn 10, ond disgwylir i geisiadau gynyddu'n sylweddol dros y misoedd nesaf am leoliadau mis Mehefin/mis Gorffennaf.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Williams o ran sut y byddai'r targedau yng Nghynllun Powys yn Un ar gyfer creu cyfleoedd am brentisiaethau a swyddi i bobl ifanc yn cael eu gwireddu, eglurodd yr Aelod Portffolio mai'r targed ar gyfer 2014/15 oedd creu 15 o brentisiaethau a 40 o gyfleoedd am leoliadau gwaith.

12.2 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Prifffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

Mae pryderon difrifol wedi cael eu mynegi fod y cyngor wedi cynyddu taliadau am Drwyddedau Parcio gan 50% eleni. Mae'r gost wedi codi o £40 i £75 am 3 mis, o £80 i £125 am 6 mis a thrwydded 12 mis o £150 i £225. A all yr aelod

portffolio ddatgelu'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnydd mewn taliadau trwyddedau Parcio blynyddol?

Fel y byddwch yn gwybod, bu'n rhaid i'r Cyngor ymdrin â'r setliadau cyllidebol mwyaf llym ac edrych am gyfanswm o £20 miliwn o arbedion ym mlwyddyn ariannol 2014/15. Fel rhan o'r setliad cyllideb hwnnw, bwriad y Cabinet oedd sicrhau'r incwm mwyaf pan fo'n bosibl er mwyn lleihau'r effaith ar wasanaethau'r Cyngor. Roedd cynyddu prisiau tocynnau tymor meysydd parcio wedi'i gynnwys yn y gyllideb gymeradwy y gwnaeth y Cyngor Llawn ei chymeradwyo ar 5 Mawrth 2014.

Mae'r tocynnau tymor blynyddol i barcio yn cynnig gwerth rhagorol i'r rhai sy'n defnyddio meysydd parcio cyfnod hir oddi ar y stryd y Cyngor yn rheolaidd. Mae trwydded 12 mis i gar yn cyfateb i £4.33 yn unig fesul wythnos yn ôl y broses ddiwygiedig. Mae hyn yn llai na'r hyn y byddai cwsmer yn ei dalu o ddefnyddio maes parcio cyfnod hir ar 2 ddiwrnod yr wythnos o leiaf ar gyfartaledd, gan dalu'r ffioedd dyddiol.

Y cwestiwn atodol oedd: A wnaiff yr Aelod Portffolio geisio cynyddu'r taliadau parcio 50% i gyd-fynd â'r cynnydd o ran trwyddedau parcio? Ymrwymodd yr Arweinydd i ddarparu ateb i'r Cyngorydd Ratcliffe ac anfon copi at yr holl Aelodau.

12.3 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd oddi wrth y Cyngorydd Sir Gareth Ratcliffe

Yn dilyn erthygl y BBC ar gymorth tai bach cyhoeddus Cymru 'i fod yn gyfraith' a Kirsty Williams, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd yn galw ar dai bach cyhoeddus i gael eu cynnwys ym Mesur Iechyd Cyhoeddus arfaethedig Llywodraeth Cymru, a all yr aelod portffolio roi diweddariad i ni ar hyn ac effaith bosibl y penderfyniad i drosglwyddo tai bach cyhoeddus i gynghorau cymunedol?

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio'i Phapur Gwyn "Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig" sy'n gofyn am safbwyntiau ynghylch cynigion i ymdrin â nifer o faterion ym maes iechyd y cyhoedd drwy Fil Iechyd y Cyhoedd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yw 24 Mehefin 2014.

Mae Adran 5 o'r Papur Gwyn, sy'n dwyn y teitl "Datblygu asedau cymunedol ar gyfer iechyd" yn cynnwys cyfeiriad at dai bach at ddefnydd y cyhoedd. Y cynnig yw gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu strategaeth ar ddarparu tai bach at ddefnydd y cyhoedd yn eu hardal, ac ynghylch mynediad at y toiledau hyn. Byddai'r strategaeth wedi'i seilio ar angen lleol a byddai'n rhaid ei hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r papur ymgynghori'n cyfeirio at amryw o doiledau posibl gan gynnwys y rhai a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn ogystal â'r rhai sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd mewn adeiladau cyhoeddus eraill. Yn ôl pob tebyg, gallai hyn gynnwys y rhai a weithredir gan Lywodraeth Cymru, darparwyr ym maes iechyd a sefydliadau eraill a ariennir gan y cyhoedd. Cyfeirir hefyd at ddefnydd posibl o gyfleusterau preifat fel y rhai sy'n cael cymorth eisoes drwy'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Er bod y ddogfen yn cyfeirio at Gynllun Grant Llywodraeth Cymru, nid oes cyfeiriad at unrhyw arian ychwanegol i gynorthwyo gyda'r costau parhaus o ddatblygu strategaeth a'i chynnal nac at gynorthwyo gydag unrhyw gostau ychwanegol o'i gweithredu.

Mae'r papur yn cyfeirio at ddewisiadau posibl, fodd bynnag, gan gynnwys trefnu i'r gymuned gymryd rhan; codi tâl a defnyddio pwerau cynllunio i ddarparu toiledau sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn datblygiadau newydd.

Mae'r cyngor hwn yn parhau i fod wedi'i ymrwymo i gefnogi'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn ystod y cyfnod ariannol anodd hwn. Nid oedd y cynigion y gwnaethom eu cyflwyno y llynedd yn wahanol iawn i'r syniadau a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori. Yn amlwg, bydd yn rhaid imi ystyried sut y dylem fwrw ymlaen â'n cynigion, ond fforddiadwyedd yw'r prif ffactor o hyd. Bydd y cynnig fel y mae yn cynyddu costau gweinyddol y cyngor ond heb ymrwymiad i unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Ni welaf unrhyw reswm pam na all ein trafodaethau â Chynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â sefydliadau eraill, barhau eleni fel y cynlluniwyd. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu ein strategaeth yn unol â'r cynigion yn y Papur Gwyn.

Ymrwymodd yr Arweinydd i roi ymateb i'r Cynghorydd Ratcliffe i'w gwestiwn atodol am yr amserlen ar gyfer ymgysylltu â Chymunedau Tref a Chymuned.

12.4 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Eiddo ac Asedau oddi wrth y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

A all yr aelod portffolio ar gyfer arlwygo ddarparu'r rhesymeg y tu ôl i gyflwyno peiriant coffi am ddim yn lolfa'r aelodau pan fo rhaid i staff a thrigolion dalu am eu coffi? Pan oeddwn i'n aelod portffolio, fe gymerais y penderfyniad i waredu â chiniawau i aelodau a chefnogwyd hyn gan y cyngor llawn. A allwch chi ddarparu manylion i'r cyngor am bwy a awdurdododd hyn?

Mae'r tabl isod yn cymharu costau'r peiriant coffi newydd â chostau darparu fflasgiau o'r ffretur. Ar sail cyfartaledd o 160 o gwpanau drwy'r peiriant bob wythnos, a chan gynnwys y gost lanhau a chost rhentu'r peiriant, £0.47c yw cost cwpan o'i chymharu â £0.75c fesul cwpan o fflasg.

Mae mecanwaith geiniogau yn y peiriant, y gofynnwyd iddi fod yn weithredol fel y gall aelodau dalu am eu diodydd yn unigol, yn hytrach na chodi tâl ar gyllideb yr aelod bob mis ar sail faint o gynhwysion a ddefnyddiwyd.

Bu pryderon am yr amser y mae'r peiriant yn ei gymryd i baratoi diodydd, yn enwedig pan fydd cyfarfodydd llawn o'r Cyngor. Trefnwyd gyda'r adran arlwygo i'r ddau ddewis, sef defnyddio'r peiriant a defnyddio'r fflasgiau, fod ar gael ar gyfer cyfarfodydd llawn y Cyngor.

Roedd y peiriant coffi ar gyfer lolfa'r aelodau yn gais drwy'r Prif Weithredwr gan y Cynghorydd David Jones ar ôl ymweliad â Chyngor Sir Gaerfyrddin ym mis

Tachwedd 2013. Cafodd y cais ei gyfeirio wedyn at yr adran arlwyo gan Sarah Jowett.

Oherwydd bod yr hen contract arlwyo a oedd yn cynnwys y peiriannau Klix yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2013, ychwanegwyd y peiriant hwn, ynghyd â'r peiriant coffi pen bwrdd arall yn ystafelloedd y Prif Weithredwr, at y ddogfen dendr. Roedd hyn yn ymgorffori ein holl ofynion gwerthu er mwyn i gyflenwyr gyflwyno ceisiadau tendro.

| Catering at County Hall, Llandrindod Wells | | | | |
|--|-------------------|----------------------|-------------------------|--------------------|
| WORKINGS | | | | |
| <i>1 Flask is provided for every 8 people, therefore can provide upto 2 cups per person from 1 flask</i> | | | | |
| Hot Drink Provision | Cost | Cups from a flask | Total cost per cup | |
| Flask | £11.23 | 15 | £0.75 | |
| Hot Drink Provision | Cost per cup | Cup provided per day | Cleaning charge per day | Total cost per cup |
| Vending | 0.09 | 40 | £11 | £0.37 |
| Equipment rental per wk | Ave cups per wk** | Rental cost per cup | | |
| £15 | 160 | £0.10 | | |
| Vended cup | £0.37 | | | |
| Rental cost per cup | £0.10 | | | |
| Total vending cost*: | £0.47 | | | |
| * Based upon 160 cups vended per wk in Members area (average). | | | | |
| ** Based upon 40 cups provided 4 days a week to the Members Lounge | | | | |

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Ratcliffe i ofyn a gynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac a fyddai'r Aelod Portffolio yn fodlon i'r peiriant coffi yn Lolfa'r Aelodau gael ei droi'n beiriant talu, nododd yr Aelod Portffolio y byddai lefel y peiriannau staff yn cael ei gostwng. Gofynnodd i'r Aelodau am eu barn o ran a ddylai'r peiriant yn Lolfa'r Aelodau fod yn beiriant talu a'r consensws oedd y dylai fod.

12.5 Cwestiwn i'r Pencampwr Gwrthlodi oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

A all y pencampwr gwrthlodi roi amlinelliad o strategaeth Cyngor Sir Powys i fynd i'r afael â thlodi?

Mae'r Cyngor (a'i bartneriaid) yn mynd i'r afael yn strategol â'i gyfrifoldebau gwrthlodi drwy Gynllun Powys yn Un yn hytrach na chael Strategaeth Wrthlodi arbennig ac ar wahân. Mae Cynlluniau Powys yn Un 2011 – 2014 a 2014 – 17 ill dau

yn cyfleu bod tlodi'n fater sy'n berthnasol i bob partner ym Mhowys. Mae hyn yn peri bod modd ystyried effeithiau tlodi a mynd i'r afael â hwy mewn modd cydweithredol a strategol yn hytrach na'u hystyried ar eu pen eu hunain.

Mae Cynllun Powys yn Un yn mynd i'r afael â thlodi yn ei ystyr ehangaf ac nid yw'n canolbwyntio'n unig ar y safbwynt mwy traddodiadol o ran natur ariannol tlodi. Am y rheswm hwnnw, wrth baratoi Cynllun Powys yn Un 2014 – 17, rydym wedi rhoi sylw arbennig i Fil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru, sydd ar y gweill, ac sydd wedi'i gynllunio i helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae Cymru yn eu hwynebu o un genhedlaeth i'r llall mewn ffordd cydgysylltiedig – gan sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwneud penderfyniadau pwysig gan gadw lles hirdymor Cymru mewn cof.

Mae pob un o'r pum blaenoriaeth a restrir yn y Cynllun yn mynd i'r afael ag amryw o faterion o ran ymdrin â thlodi:

- Iechyd a gofal cymdeithasol integredig i oedolion
- Plant a Phobl Ifanc
- Trawsnewid dysgu a sgiliau
- Cymunedau cryfach, mwy diogel ac economaidd hyfyw
- Gwasanaethau cyhoeddus ariannol gytbwys a ffit i'r pwrpas

Gan fod tlodi'n fater y mae dinasyddion yn pryderu mwyfwy amdano ac yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru, mae'n bwysig ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ein perfformiad yn y maes hwn. Tra byddwn yn mynd i'r afael â chamau yn erbyn tlodi ym mhob rhan o Gynllun Powys yn Un, byddwn yn sicrhau hefyd ein bod yn llunio adroddiad gwrthdlodi blynyddol sy'n canolbwyntio ar ein perfformiad yn ôl dangosyddion allweddol o ran tlodi ac sy'n amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi. Bydd hyn yn caniatáu inni dynnu sylw at fynd i'r afael â thlodi wrth i'r cynlluniau strategol ehangach weithredu yn ei gyloch.

Mae'n bwysig hefyd ein bod yn parhau i ddefnyddio'n strwythurau llywodraethu a chynllunio cydweithredol i sicrhau ein bod yn cynnal dull strategol a chydgyssylltiedig o fynd i'r afael â thlodi. Enghraifft bwysig o hyn yw'r angen i weithio gyda'n partneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl i fynd i'r afael â thlodi gwledig drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig sydd ar y gweill a'r adnoddau a ddaw gyda'r Cynllun, hynny yw, LEADER.

Tlodi Plant

Mae ymyriadau sydd wedi'u hanelu'n benodol at leihau effeithiau tlodi plant yn cael eu cynllunio a'u darparu drwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r Cynllun Teuluoedd yn Gyntaf yn nodi ein blaenoriaethau o ran mynd i'r afael ag anfantais a thlodi ar gyfer plant a'u teuluoedd hyd at 2017. Mae'n cynnwys amryw o brosiectau/gwasanaethau a gomisiynwyd sy'n darparu cymorth ac ymyriadau cynnar i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd y mae tlodi'n debygol o fod yn ffactor pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ym maes Iechyd Meddwl a Lles, cymorth i Deuleuodd ac o ran Ymddygiad, ac Anabledd. Mae'r cynllun hefyd yn amlinellu'r prif sylfeini yr ydym yn eu rhoi ar waith o ran seilwaith i sicrhau bod anghenion teuluoedd yn cael eu nodi a'u hasesu mor fuan yn y broses ag y bo modd, a'u bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau ar y lefel gywir, ac ar yr adeg gywir iddynt.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn monitro'i pherfformiad bob chwarter drwy gyfrwng ei chynlluniau gwaith a'i cherdyn adrodd Atebolrwydd sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA).

Mae'r cerdyn adrodd hwn yn cynnwys dangosyddion pwysig o ran tlodi ym Mhowys, gan gynnwys;

- *Cyfran y plant sy'n byw mewn tlodi*
- *Pwysau geni isel*
- *Nifer y rhai sydd wedi gadael Blwyddyn 11 ac nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET)*
- *Perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, o'i gymharu â pherfformiad eu cyfoedion, yn y cyfnodau allweddol*
- *Presenoldeb y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim*
- *Nifer y bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith*

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn comisiynu amryw o wasanaethau ac ymyriadau i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi plant, gan gynnwys;

- *Rhaglen Dechrau'n Deg yn Ystradgynlais, Aberhonddu, Llandrindod, y Drenewydd a'r Trallwng – ein hardaloedd lle y ceir yr amddifadedd mwyaf*
- *Prosiect NOVUS (sy'n cymryd lle Genesis 2) sy'n darparu cymorth i unigolion, yn enwedig rhieni sengl a'r rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant, i ddod yn nes at y farchnad lafur.*
- *Y Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid, sy'n cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sy'n destun anfanteision eraill.*
- *Y Strategaeth Gofal Plant a'r cynllun gweithredu i sicrhau bod digon o ofal plant ar gael sydd o ansawdd uchel, yn fforddiadwy ac yn hygyrch er mwyn cefnogi rhieni i weithio a hyfforddi ac i ddarparu profiadau o ansawdd uchel i blant.*
- *Cynllun cymorth lleoedd i ddarparu cymorth ariannol i helpu teuluoedd sydd mewn tlodi gyda chostau uchel gofal plant.*

- *Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) (gan gynnwys y Fframwaith Asesu Cyffredin (CAF), y Paneli Atebion Adnoddau Lleol, a'r Tîm o Amgylch y Teulu), sy'n darparu atebion ataliol ac ymyriadau cynnar ar gyfer plant difreintiedig a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys hefyd y broses o deuluoedd yn camu i fyny a chamu i lawr rhwng Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cael cymorth ar y lefel fwyaf priodol pan fo angen y cymorth hwnnw arnynt.*
- *Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n darparu cyngor a gwybodaeth ddi-dâl i Bobl Ifanc a theuluoedd.*
- *Ymateb integredig a chyfannol o ran cefnogi teuluoedd sydd â phlentyn anabl drwy'r Gwasanaeth Anabledd Integredig. Mae'r Gwasanaeth hwn yn darparu dull mwy cydgysylltiedig o gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anableddau a'u teuluoedd, sy'n fwy tebygol o fod yn destun tlodi.*
- *Y Cynllun Cyfeirio i helpu i sicrhau bod gofal plant a gweithgareddau hamdden ar gael i Blant a Phobl Ifanc sydd ag anghenion ychwanegol.*
- *Gwasanaethau i ddarparu cymorth, gwybodaeth a chyngor, seibiant a chyfleoedd cymdeithasol i ofalwyr ifanc sy'n wynebu risg uwch o fod yn destun tlodi.*
- *Pan fo gordewdra a phydredd dannedd yn gallu bod yn ddangosyddion o amddifadedd, mae rhaglen Mind Exercise Nutrition Do it! (MEND yn anelu at geisio gwella canlyniadau iechyd a lles emosiynol plant a theuluoedd sy'n or-dew neu sydd mewn perygl o fod yn or-dew.*

Dull y Cyngor o Gyflawni

Mae'r Cyngor yn defnyddio'i Gynllun Cydraddoldebau Strategol ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a chael canlyniadau cadarnhaol.

'Rydym yn darparu ystod o wasanaethau i gymuned amrywiol gyda gwahanol anghenion – rhai ohonynt o dan anfantais fawr – ac mae'r cwbl yn digwydd dros ardal ddaearyddol eang ... byddwn yn gweithio i ddiwallu anghenion pobl gorau gallwn o ran y gwasanaethau a'r gyflogaeth a ddarparwn, tra'n cyfrannu at helpu'r bobl sydd o dan anfantais mewn bywyd.'
'Mae anfantais hefyd yn mygu talent, felly gobeithio y bydd y cynllun hwn yn helpu i ryddhau'r potensial cudd hwnnw – gan gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac emosiynol ein gweithle a'n cymunedau lleol.'

(Cynllun Cydraddoldeb Strategol Powys 2012- 2016)

O ganlyniad i waith cynllunio strategol, mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn darparu ystod o wasanaethau ac ymyriadau i helpu i fynd i'r afael â thlodi ac ymdrin â'i effeithiau.

Mae gwasanaethau Hamdden y Cyngor yn cynnig yr ymyriadau a ganlyn;

- *Mentrau Nofio am Ddim i Blant a Phobl Ifanc a Phobl dros 60 oed*
- *Mynediad at Gynlluniau Ffitrwydd i Unigolion sy'n cael incwm isel*
- *Nofio am ddim i ofalwyr pan fyddant yn y pwll yn gofalu am unigolion sydd ag anabledd*
- *Cynllun Cerdyn iCare– mynediad am ddim i gyfleusterau nofio a'r ystafell ffitrwydd i ofalwyr at ddibenion hamdden eu hunain*
- *Cynllun Atgyfeiriad gan Feddyg Teulu ac Adsefydlu drwy Weithgareddau Cardio – mynediad â chymhorthdal yn ystod y 16 wythnos gyntaf*

Mae'r Gwasanaethau Ysgolion yn cynnig yr Ymyriadau a ganlyn;

- *Prydau Ysgol am ddim i deuluoedd sy'n cael incwm isel*
- *Y Grant Amddifadedd Disgyblion – wedi'i ddatganoli 100% i Ysgolion i helpu i wella llythrennedd, rhifedd a phresenoldeb Disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim*
- *Y Grant Gwisg Ysgol (drwy'r adran Refeniw a Budd-daliadau)*
- *Y Lwfans Cynhaliath Addysg i ddysgwyr dros 16 oed.*

Mae gan y Cyngor hefyd ystod o wasanaethau a phrosiectau sy'n rhan o'r agenda Adfywio i feithrin cyflogaeth a gweithgarwch economaidd ynghyd â chynaliadwyedd a datblygiad cymunedau.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance oedd pam nad oedd y Cyngor yn mesur tlodi, a phryd y byddai'n dechrau gwneud hynny. Rhoddodd yr Aelod Portffolio wybod bod gweithdy ar dlodi yn cael ei drefnu, a'r bwriad yw ei gynnal ar 16 Mehefin.

12.6 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros Addysg a Gwasanaethau Plant oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

A all yr Aelod Cabinet ddweud wrth y Cyngor pa gymorth ychwanegol fydd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Powys i gefnogi Ysgol Uwchradd Aberhonddu a'r Corff Llywodraethu?

Mae gwasanaethau ysgolion Powys a Cheredigion yn gweithio'n agos gyda thîm rheoli a chorff llywodraethu Ysgol Uwchradd Aberhonddu fel bod yr ysgol yn mynd i'r afael ag argymhellion Estyn yn brydlon. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys herio, cefnogi, a rhoi canllawiau ynghylch llunio fersiwn ddiwygiedig o gynllun gweithredu ar ôl arolygiad a darparu cymorth sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Mae'r Awdurdod Lleol yn monitro cynnydd yn yr ysgol bob hanner tymor, a Paul Coackley, arweinydd systemau dynodedig yr Ysgol, sy'n arwain y gwaith, gydag arweinydd systemau profiadol o Bowys a Cheredigion. Mae Pennaeth Dros Dro Ysgolion yn monitro'r cynnydd ac yn mynd i gyfarfodydd y corff llywodraethu a'r is-bwyllgorau perthnasol pan fo'n briodol. Mae adran Adnoddau Dynol y Cyngor yn darparu cyngor i'r ysgol ar strwythurau staffio i sicrhau bod lefelau priodol o atebolrwydd a chyfrifoldeb. Bydd

gwelliannau hefyd yn destun gwaith craffu gan aelodau etholedig drwy'r aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Plant a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Pobl.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance yn gofyn am i Aelodau Lleol gael y wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig ar ôl yr arolygiadau a gynhelir bob chwarter, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio y byddai'n trefnu bod hyn yn cael ei wneud.

12.7 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

A all yr Aelod Cabinet ddweud wrth Aelodau am gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer Arcêd Marchnad a Neuadd Marchnad Aberhonddu?

Fel yn achos llawer o eiddo'r Cyngor, byddai Arcêd Marchnad a Neuadd Marchnad Aberhonddu yn elwa ar fuddsoddiad cyfalaf i wella'i edrychiad. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor nifer o flaenoriaethau o ran ei gyfalaf, ac nid y lleiaf o'r rhain yw sicrhau gwelliannau i ysgolion ym Mhowys. Yn anffodus, nid yw'r Arcêd Marchnad a'r Neuadd yn flaenoriaethau i'n hadnoddau prin ar hyn o bryd. Bydd yr Aelodau'n gwybod mai menter ar draws y sir yw'r Cyfrwng â Chymorth Asedau Lleol (LABV), ond y bydd yn dechrau gweithredu yn Aberhonddu. Er ei bod yn wir na fydd ei effaith i'w gweld am nifer o flynyddoedd i ddod, y gobaith yw, ar ôl i hyn ddod yn gwbl weithredol, y bydd yn ystyried potensial datblygu safle'r Arcêd Marchnad a'r Neuadd.

Yn y cyfamser, nid yw ein cyllidebau'n peri bod modd gwneud gwaith adnewyddu, a allai ddod yn rhan o ddatblygiad yn y dyfodol, neu hyd yn oed gwaith cynnal llawn ar yr adeilad.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance i ofyn i'r Aelod Portffolio gwrdd ag Aelodau Lleol a masnachwyr marchnad, dywedodd yr Arweinydd y byddai'n crybwyll hyn wrth yr Aelod Portffolio.

12.8 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio gyda chyfrifoldeb dros ADY a'r Aelod Portffolio dros AD, TGCh a Chyfathrebu oddi wrth y Cynghorydd Sir David Price

Cafwyd datganiadau o ddiddordebau personol a rhagfarnus gan y Cyngorwyr Sir M.A. Alexander, J.R. Jones, D.J. Mayor a D.H. Williams a gwnaethant adael y cyfarfod tra bo'r mater hwn yn cael ei drafod.

A all yr Aelodau Portffolio sydd â chyfrifoldeb dros Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Adnoddau Dynol ddweud wrth y Cyngor sut y mae staff ADY presennol yn cael gwybod am gynnydd o ran yr ymgynghoriad ADY a dyfodol y gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau pontio?

Cafodd pob aelod o staff a gyflogir yn y canolfannau arbenigol lythyr ar yr un pryd ag y lanswyd yr ymgynghoriad cyhoeddus i roi gwybod iddynt am y cynigion a'r effaith bosibl arnynt hwy pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu.

Gwahoddwyd pob aelod o staff i gyfarfod yn Neuadd Sir Powys ar Chwefror 13, 2014. Cawsant eu hannerch gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaeth Ysgolion a swyddogion Adnoddau Dynol. Ar ôl y cyfarfod hwn, darparwyd cofnodion o'r cyfarfod i'r staff ynghyd ag amserlen ddiwygiedig.

Cynigiwyd cyfarfodydd personol i'r staff â'r Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro a swyddog o'r adran Adnoddau Dynol. Manteisiodd chwe aelod o staff ar y cyfle hwn: dau drwy sgwrs dros y ffôn a phedwar drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae llythyr pellach i'w ddosbarthu i'r staff erbyn diwedd yr wythnos sy'n dechrau ar 28 Mai i egluro'r sefyllfa ymhellach.

Roedd cwestiwn atodol y Cynghorydd Price yn gofyn am y modd y byddai'r cyhoedd a'r rhieni yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Eglurodd yr Aelod Portffolio ei fod wedi cwrdd â chynrychiolwyr rhieni o bob ysgol i drafod pryderon. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu casglu ac roedd yn debygol na fyddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn mis Gorffennaf. Byddai cyfarfod i rieni a seminar ar gyfer yr Aelodau yn cael eu trefnu cyn hynny.

12.9 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol, TG a Chyfathrebu oddi wrth y Cynghorydd Sir Kathryn Silk

A all yr Aelod Cabinet esbonio sawl gwaith mae'r Ddeddf Diogelu Data wedi cael ei thorri o ran data a gynhelir gan Gyngor Sir Powys dros y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer: pa feysydd gwasanaeth oedd ynghlwm â hyn ym mhob achos o dorri'r Ddeddf; faint o'r achosion hyn o dorri'r Ddeddf oedd yn ymwneud â gwybodaeth bersonol sensitif; os yw e'n fodlon fod y mesurau a gymerwyd i atal torri'r Ddeddf yn ddigonol; ac os gwnaiff ddarparu ffigurau tri mis i gynghorwyr sy'n manylu ar unrhyw achosion o dorri'r Ddeddf sy'n digwydd yn y dyfodol?

Ym mlwyddyn ariannol 01-04-13 i 31-03-14 cofnodwyd 99 o Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth.

O'r 99 hynny, ar ôl ymchwiliad, cafwyd bod 55 ohonynt wedi torri Deddf Diogelu Data 1998.

| Maes Gwasanaeth | Nifer y toriadau |
|---------------------------------|-------------------------|
| <i>Tai</i> | 4 |
| <i>Cymorth Busnes</i> | 11 |
| <i>Darparwr Gwasanaethau</i> | 4 |
| <i>Gwasanaethau Plant</i> | 11 |
| <i>Gwasanaethau Cyfreithiol</i> | 1 |
| <i>Rheoli Datblygu</i> | 2 |
| <i>Gwasanaethau Ysgolion</i> | 3 |
| <i>TG</i> | 1 |
| <i>Gwasanaethau Oedolion</i> | 5 |
| <i>Incwm a Dyfarniadau</i> | 3 |
| <i>Gwasanaethau Cwsmeriaid</i> | 2 |

| | |
|---|-----------|
| <i>Gwasanaethau Ieuenctid</i> | 1 |
| <i>Adnoddau Dynol</i> | 3 |
| <i>Yr Uned Rheoli Gwybodaeth</i> | 3 |
| <i>Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc</i> | 1 |
| Cyfanswm | 55 |

- *Digwyddodd 29 o'r 55 o achosion hyn o dorri'r Ddeddf y tu mewn i'r Cyngor; digwyddodd 26 ohonynt y tu allan i'r Cyngor.*
- *Roedd 21 o'r 55 o achosion hyn o dorri'r Ddeddf yn cynnwys data personol sensitif (fel y'i diffinnir o dan y Ddeddf)*
- *Cafodd 40 o'r 55 o achosion hyn o dorri'r Ddeddf eu cyfyngu, hynny yw, cadarnhaodd y derbynwyr eu bod wedi dileu, dinistrio neu wedi dychwelyd gwybodaeth bersonol.*

Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am brosesu symiau enfawr o wybodaeth bersonol yng nghyswllt cwsmeriaid, preswylwyr, defnyddwyr gwasanaethau, a staff; mae'r wybodaeth hon yn cael ei gweld a'i defnyddio gan filoedd o staff wrth iddynt ymgymryd â'u gwaith bob dydd. Bydd adegau pan fo camgymeriadau syml yn peri achosion o dorri gofynion diogelu gwybodaeth.

Mae'n ofyniad yn Neddf Diogelu Data 1998 fod yr awdurdodau lleol hyn yn manteisio ar bob cyfle posibl i ofalu bod mesurau ar waith i ddiogelu'r wybodaeth bersonol a ddefnyddir, gan sicrhau bod cost y mesurau hynny yn gymesur â natur y wybodaeth bersonol sy'n cael ei diogelu a'r niwed tebygol a fyddai'n cael ei greu pe bai achos diogelwch gwybodaeth yn codi.

Un mesur a ddefnyddir gan Gyngor Sir Powys yw trefnu i bob aelod o staff sydd â mynediad at ddata personol gael hyfforddiant ynghylch nodweddion sylfaenol Deddf Diogelu Data 1998, a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad o ran ymdrin â gwybodaeth.

Mae'r ffigurau hyfforddi presennol yn cyfateb i 99%.

Mae'r gwaith o ddatblygu prosesau hyfforddi ac o fonitro'r graddau y cydymffurfir wedi'i gynnal gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol, yn ychwanegol at ei waith o oruchwylio arferion a ddatblygwyd i reoli risgiau gwybodaeth.

Nid yw rhai o'r digwyddiadau diogelwch gwybodaeth hyn, a gofnodir yn ganolog, yn achosion o dorri Deddf Diogelu Data 1998 ond maent yn rhoi gwybod i Gyngor Sir Powys am feysydd gwan neu risg i weithredu yn eu cylch.

Caiff digwyddiadau eraill eu hystyried yn doriadau gwybodaeth o dan nodweddion penodol Deddf Diogelu Data 1998, ond maent wedi'u cadw y tu mewn i'r sefydliad, ac nid ydynt ar gael i'r cyhoedd.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi rhoi gwybod o'r blaen i Gyngor Sir Powys ei bod yn fodlon fod gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau sy'n addas er

mwyn atal digwyddiadau diogelwch gwybodaeth fel y rhai a ddygwyd i'w sylw eisoes rhag ailgodi, neu fod y Cyngor yn bwriadu gweithredu polisiau a gweithdrefnau o'r fath.

Roedd Cyngor Sir Powys yn destun archwiliad cydsyniol y llynedd, a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, i ystyried y graddau y mae'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Pennwyd lefel sicrwydd y Cyngor yn rhesymol, gan ddangos bod yr archwilwyr o'r farn bod lefel resymol o sicrwydd fod prosesau a gweithdrefnau ar waith ac yn sicrhau y cydymffurfir o safbwynt diogelu data, o ran cwmpas y meysydd a archwiliwyd.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn defnyddio pedair sgôr sicrwydd: cyfyngedig iawn, cyfyngedig, rhesymol, ac uchel.

Mae canlyniad yr archwiliad wedi llywio blaenraglen waith y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol a'r Grŵp Llywodraethu Gweithredol Gwybodaeth Gorfforaethol fel ei gilydd.

Felly, ar sail yr arferion hynny a roddwyd ar waith a'r rhai sy'n parhau i gael eu datblygu, gellir ystyried bod y Cyngor yn mynd ati'n weithredol i ddatblygu systemau i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth ym maes gwybodaeth, gan gynnwys rhoi gwybod am Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth a'u rheoli.

Oherwydd y rhoddir gwybod yn ganolog am Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth, a'u bod yn cael eu cofnodi'n ganolog, gall y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol gyflenwi ffigurau bob chwarter i'r aelod portffolio.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Silk, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio y byddai'r ffigurau chwarterol yn cael eu darparu i'r aelodau.

Gadawodd y Cynghorwyr Sir P.E. Lewis ac R.G. Thomas y cyfarfod.

12.10 Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gwilym Williams

Rwy'n deall fod Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn gwneud ceisiadau am help o fewn wardiau Cynghorwyr a bod y ceisiadau hynny'n cael eu trosglwyddo weithiau i aelodau'r cabinet. A ddylid cyflwyno polisi fel y gellid rhoi gwybod i gynghorwyr sir am y ceisiadau hynny gan y gallai'r cynghorydd sir helpu gyda'r cais ac y byddai hyn yn fuddiol i bawb?

Mae unrhyw ohebiaeth gan Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol neu Aelodau o Senedd Ewrop yn cael ei chofnodi gan yr adran Cymorth i Aelodau a'i hanfon ymlaen at yr Aelod Portffolio perthnasol. Pan fo'r ohebiaeth honno yn ymwneud â ward benodol, ac ar yr amod nad oes dim materion o ran cyfrinachedd, rwyf yn cytuno y dylid hysbysu'r Aelod lleol a byddaf yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud o hyn ymlaen.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Williams i ofyn a ellid cynnwys hyn yn rhan o'r Cyfansoddiad, dywedodd yr Arweinydd nad oedd yn gwrthwynebu hyn ac y byddai'n gofyn i'r Gweithgor Cyfansoddiad i ymchwilio i'r mater.

12.11 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant oddi wrth y Cynghorydd Sir David Jones

A oedd yr aelod Cabinet wedi cael syndod i weld bod ESTYN wedi gosod Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn y categori Mesurau Arbennig?

Rwyf wedi cadw cyswllt agos â'r datblygiadau yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu drwy gyfrwng trafodaethau rheolaidd â Phennaeth Dros Dro y Gwasanaeth Ysgolion ac rwyf wedi cael adroddiadau monitro bob hanner tymor yn rheolaidd. Cyn yr arolygiad, fe'i gwnaed yn glir iawn imi mai cynnydd araf a wnaed a bod nifer o'r argymhellion wedi'u bodloni'n rhannol. Roedd y farn yn y llythyr am ganlyniad yr arolygiad yn debyg iawn i'r adroddiad a ddarparodd yr Awdurdod i Estyn cyn yr arolygiad.

Mae swyddogion yn y gwasanaeth ysgolion ac uwch-swyddogion o Geredigion sy'n gydwethwyr yn cymryd camau cadarn a phriodol i gefnogi'r ysgol a'i herio er mwyn iddi wella. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd â chadeirydd y llywodraethwyr, y pennaeth ac aelodau eraill y corff llywodraethu.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Jones oedd pa gymorth a roddwyd i'r ysgol o'r adeg y cododd yr angen am welliannau sylweddol yno a faint o oriau o ymyrraeth a gyfrannwyd? Dywedodd yr Aelod Portffolio y byddai'n darparu'r manylion yn hyn o beth.

12.12 Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cynghorydd Sir David Jones

A fydd yr Aelod yn rhoi manylion am unrhyw drafodaethau sydd ar fynd tuag at weithredu'r Cyflog Byw i weithwyr Cyngor Sir Powys?

Bydd yr Aelodau'n cofio i Gynnig gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 25 Hydref 2012 yn gofyn iddo fabwysyadau Polisi Cyflog Byw ar gyfer ei gyflogeion. Ar ôl dadl hir,

“PENDERFYNWYD bod y Cyngor hwn yn croesawu'r cynnig gerbron y Cyngor llawn gan y Cynghorydd M.J. Dorrance a'r Cynghorydd S.L. Williams ac mewn egwyddor mae'n cefnogi cyflwyno cyflog byw. Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i ymchwiliad trylwyr i'r costau a'r effaith ar y Cyngor a'i weithwyr gael ei gynnal a bod y cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet erbyn Ebrill 2013 cyn adrodd wrth y Cyngor llawn.”

Yng nghofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2013, nodwyd “y byddai'r Cyngor yn derbyn adroddiad ar y cyflog byw ym mis Ebrill”. Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2013 yn cofnodi “ei fod yn disgwyl y daw adroddiad ar y Cyflog Byw gerbron y Cabinet ym mis Mai”. Ni chafodd yr un o'r

adroddiadau hyn ei gyflwyno ac, ar ôl imi gael fy ethol yn Arweinydd, gwneuthum holi am yr hyn a oedd wedi digwydd i fwrw ymlaen â'r adroddiad. Ymddengys nad oedd y mater wedi mynd yn ei flaen. Felly, gofynnais am i'r gwaith ddechrau ar yr ymchwiliadau fel y cytunodd y Cyngor ac, ar 6 Ebrill 2014, cefais adroddiad "cwmpasu" cychwynnol a oedd yn rhoi gwybodaeth am y cyflog byw ac yn amlinellu'r goblygiadau i'r Cyngor. Ers hynny, rwyf wedi gwneud ymholiadau anffurfiol eraill ynglŷn â bwrw ymlaen â'r mater. Nid oes dim trafodaethau negodi wedi'u cynnal â chyflogeion gan fod angen i'r broses o fabwysiadu'r Polisi, fel y penderfynwyd, fynd i'r Cabinet a'r Cyngor llawn i gael ei chymeradwyo neu beidio. Mae'n fwriad gennyf gyflwyno adroddiad yn yr hydref fel y gall unrhyw benderfyniad gan y Cyngor gael ei ystyried ym mhroses y gyllideb.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cyngorydd Jones i ofyn a oedd perygl o gywasgu graddfeydd cyflog a dileu gwahaniaethau, dywedodd yr Arweinydd y byddai'r pwyntiau hyn yn cael sylw pan fo'r Cabinet yn ystyried y Cyflog byw yn yr hydref.

12.13 Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cyngorydd Sir David Jones

A fydd yr Arweinydd yn darparu manylion i'r Cyngor am unrhyw ymgynghorwyr a gyflogwyd, ar gyfer pa ddiben ac am ba gost ers iddo ddod yn Arweinydd?

Manteisiwyd ar arbenigedd a sgiliau proffesiynol i fwrw ymlaen â'r broses o Ailgynllunio a Phennu Strwythur yr Adran Tai a oedd wedi cyrraedd hanner ffordd pan fu'n rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch. Bu hyn am gyfnod cychwynnol o bum diwrnod ac yna defnyddiwyd diwrnodau ychwanegol oherwydd absenoldeb parhaus y Pennaeth Gwasanaeth. Y gost yw £500 y dydd, a hynny er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hanfodol hwn ar y cyd â'n staff a'r undeb llafur. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus gan Gyfarwyddwr Strategol Pobl.

Mae ymgynghorydd wedi'i benodi gan yr adran Newid a Llywodraethu i gynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu cynllun datblygu'r sefydliad. Roedd angen cymorth allanol gan iddi gymryd yn hwy na'r disgwyl i drosglwyddo aelodau'r tîm Datblygu Sefydliadol a Chymorth Partneriaid fel rhan o broses y llynedd o ailstrwythuro ac i leihau'r gwariant sy'n gysylltiedig â chost uwch cymorth Hay. Y gost yw £12,650.

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet blaenorol i ystyried ad-drefnu canolfannau hamdden a chwaraeon, mae darn bach o waith wedi'i gomisiynu gyda KPMG i gefnogi'r Cabinet yn y dasg hon; y gost yw £9,950.

Mae'r adran Gyllid wedi penodi archwilydd allanol i adolygu'r parodrwydd i gau'r cyfrifon. Mae'r adran Gyllid hefyd wedi comisiynu adolygiad o weithdrefnau cyfalafu'r Cyngor i wirio a yw'r arferion gorau yn cael eu dilyn ac felly i leihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Bydd hyn yn costio cyfanswm o tua £20,000.

Ni ofynnwyd cwestiwn atodol, ond nododd yr Arweinydd y byddai'n trafod â'r Prif Weithredwr y gofyniad i gael cymeradwyaeth gan aelod portffolio ynghylch penodi

ymgynghorwyr uwchlaw swm penodol ac y byddai'n gofyn am adroddiad chwarterp; ar yr ymgynghorwyr a benodwyd.

12.14 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Comisiynu a Chaffael oddi wrth y Cynghorydd Sir David Jones

Fel rhan o'r broses gomisiynu, a yw'r Cabinet wedi penderfynu faint o Ganolfannau Hamdden/Chwaraeon sydd i gau ac o ba ganolfannau i gomisiynu gwasanaethau?

Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch cau, os oes angen, unrhyw Ganolfan Hamdden benodol neu gyfleuster mewn Canolfannau Hamdden unigol. Fel yr addawyd yn ystod y dadleuon ar y gyllideb, ni fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud heb ymgyngori â'r cymunedau lleol, gan gynnwys aelodau lleol a Chynghorau Tref/Cymuned. Fel y nodir ar amserlen V4 a'r Bwrdd Rhaglen, mae'r Cynllun Busnes yn dal yn y broses o gael ei lunio, gan ystyried ffigurau cyllideb y llynedd a pherfformiad Canolfannau unigol. Mae drafft cychwynnol o adroddiad ar ddewisiadau o ran Cynaliadwyedd y Seilwaith Hamdden wedi'i baratoi gan swyddogion ond ni wnaed unrhyw benderfyniadau, ac, fel y nodir uchod, mae'r dewisiadau yn dal i fod yn destun gwaith ymchwilio. Bydd angen lleihau costau yn sylweddol yn y portffolio Hamdden ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16, nid y flwyddyn bresennol, ac mae'n hollbwysig ein bod yn ystyried yn fanwl ymhle y gellid gwneud y gostyngiadau hyn, a sut, gan ystyried y nifer fawr o newidiadau sydd eu hangen i gyflawni Cynllun Powys yn Un a'r cynllun Newid. Mae'r newidiadau sydd eu hangen o ran darparu gwasanaethau yn berthnasol i nifer o feysydd gwasanaeth a byddant yn effeithio ar nifer o'n cymunedau lleol.

Gan gadw'r ddau ffactor hyn mewn cof, hynny yw, y targed i leihau costau, sy'n ymwneud â 2015/16, a'r angen i ddeall y newid cyfunol a'r effaith ar gymunedau unigol, mae'r Cabinet o'r farn y dylai'r aelodau chwarae rhan lawn cyn i adroddiad gael ei gyflwyno iddo, ac mae nifer o weithdai wedi'u trefnu ar gyfer yr aelodau. Cynhelir y cyntaf o'r rhain ar 2 Mai, a'r bwriad yw hysbysu'r aelodau a chlywed eu hadborth a'u barn am effaith gronpus pob newid sydd wedi'i gynllunio, a hynny fesul cymuned, a phenderfynu wedyn ym mha achosion y byddai'n well dod â chyllid i ben ac ym mha ganolfannau, os oes angen.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Jones oedd pa mor fuan y byddai'r Aelodau'n gwybod am newidiadau i ganolfannau hamdden ac a fyddai'r posibilrwydd y bydd y Cyflog Byw yn cael ei gyflwyno yn effeithio ar y cynigion. Eglurodd yr Aelod Portffolio fod yr achos busnes yn cael ei ddatblygu, a phe bai'r Cyflog Byw yn cael ei fabwysiadu byddai hyn yn cael ei gynnwys gan y byddai'r drefn Trosglwyddo Ymgymeriadau a Diogelu Cyflogaeth (TUPE) yn berthnasol i bob aelod o staff sy'n trosglwyddo.

12.15 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion oddi wrth y Cynghorydd Sir David Jones

Erbyn pryd y mae'r aelod Cabinet yn rhagweld y bydd yr holl Ganolfannau Gofal Dydd yn cael eu staffio a'u rhedeg gan wirfoddolwyr?

Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag ystod o sefydliadau yn y sector gwirfoddol (a Chyngor Tref) i ganfod y dull o ddarparu gwasanaethau sydd fwyaf priodol ar gyfer eu canolfan ddydd leol. Yn y cynllun effeithlonrwydd gwasanaethau (fel rhan o'r cynllun ariannol tymor canolig), cytunodd y Cyngor y byddai tair canolfan ddydd yn cael eu hallanoli yn ystod 2014/15, ac yna dwy ganolfan arall yn 2015/16, a'r ddwy ganolfan olaf yn 2016/17. Rydym yn disgwyl y bydd gwirfoddolwyr yn adnodd sylweddol yn y gwaith o ddarparu'r canolfannau dydd hyn, ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu talu. Mae'r dewisiadau hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd wrth i'n sefydliadau partner ddatblygu eu cynlluniau busnes ar gyfer darparu gwasanaethau canolfannau dydd mewn modd cynaliadwy.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Jones i ofyn pryd y byddai'r Cyngor yn gwybod pa dair canolfan a fyddai'n cael eu newid yn rhai allanol, eglurodd yr Aelod Portffolio fod ymgynghoriad yn mynd rhagddo ag Aelodau lleol yn y Drenwydd, y Trallwng ac yng Nghrucywel.

12.16 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol, TG a Chyfathrebu oddi wrth y Cynghorydd Sir David Jones

A fydd yr Aelod Portffolio yn rhoi manylion y cyhoeddusrwydd a ddarperir gan ei adran cyn yr ymgynghoriad i'r sir gyfan ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac a yw ef yn fodlon fod pawb wedi cael digon o wybodaeth i wneud cyfraniad o sylwedd at y newidiadau arfaethedig?

Cafwyd datganiadau o ddiddordebau personol a rhagfarnus gan y Cynghorwyr Sir M.A. Alexander, J.R. Jones a D.J. Mayor a gwnaethant adael y cyfarfod tra bo'r mater hwn yn cael ei drafod.

Cyhoeddusrwydd yr Ymgynghoriad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r wybodaeth isod yn rhestru'r gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd. (Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 3 Chwefror 2014 a 17 Mawrth 2014)

Gohebiaeth Uniongyrchol

Rhodddwyd gwybod i benaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd mewn cynhadledd a gynhaliwyd cyn y cyfnod ymgynghori y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau ar 3 Chwefror.

Ar 3 Chwefror, anfonwyd llythyrau at rieni disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd (drwy'r ysgolion) yn tynnu sylw at yr ymgynghoriad. Cyfeiriwyd y rhieni at y ddogfen ymgynghori ar-lein neu at eu hysgol leol, a oedd â chopi papur. Ar ben hynny, roedd y llythyr yn gwahodd rhieni i gysylltu â'r Gwasanaeth Ysgolion i gael copi papur os oedd hynny'n well ganddynt.

Anfonwyd llythyrau hefyd at ysgolion a llywodraethwyr yn yr un wythnos, ynghyd â nifer fawr o randdeiliaid eraill, gan gynnwys undebau llafur, gwleidyddion lleol, pob cyngor cymuned a thref yn y sir, unrhyw drydydd partion sy'n ymwneud â

darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyfagos.

Y Cyfryngau

Ymholiadau'r cyfryngau

Dechreuodd y cyngor gael ymholiadau gan y cyfryngau am y pwnc ar 5 Chwefror, ac mae wedi cael chwe ymholiad i gyd. Cyflwynir dadansoddiad ohonynt isod:

- **6/2/14 South Wales Evening Post Online**

12-year-old Swansea Valley autistic girl writes heartfelt letter to save special education units

A Swansea Valley girl with autism has written an open letter to councillors in a heartfelt plea to save several special education units from closure...

[Darparwyd datganiad ymatebol]

- **6/2/14 BBC Online**

Fears over Powys education units closure proposals

Protest groups have criticised a council's move to close specialist units for children with additional learning needs in Powys...

[Darparwyd datganiad ymatebol]

- **7/2/14 Western Mail**

Tudalen 14 – Protestors aim to block school cuts

Thousands of people have signed an online petition fighting plans to shut all units for children with additional learning needs at schools in Powys...

[Darparwyd datganiad ymatebol]

- **14/2/14 County Times**

Tudalen 2 – 'Lifeline' blow to special needs children

Children with special needs will be denied "an absolute lifeline" if council plans to close specialist units are approved, say parents...

[Darparwyd datganiad ymatebol]

Darparwyd y wybodaeth a ganlyn mewn ymateb i'r pedwar ymholiad uchod:

Mae'r cyngor yn cynnig newid y ffordd mae'n darparu addysg i blant rhwng 3 – 11 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Datblygwyd y cynigion yn dilyn arolygiad Estyn o'r cyngor yn 2011 a'i ymweliad dilynol yn 2012 a ddaeth i'r casgliad bod yna 'ddiffygion pwysig' yn ein darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae ein dogfen ymgymghori ar gael yn www.powys.gov.uk/dweudeichdweud

Mae gan unrhyw un sydd am gyflwyno sylwadau ar y cynigion tan 5pm ddydd Llun 17 Mawrth i wneud hynny. [Cyfieithiad]

Cafwyd dau ymholiad arall gan y cyfryngau; gweler isod:

- **11/3/14 BBC Cymru – Y wybodaeth ddiweddaraf am Anghenion Dysgu Ychwanegol**
- **11/3/14 ITV Cymru – Y wybodaeth ddiweddaraf am Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Darparwyd y datganiad a ganlyn mewn ymateb i'r ddau ymholiad uchod:

Dywedodd y Cyngorydd Graham Brown, Aelod o Gabinet Cyngor Sir Powys: “Bydd yr ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r dull o ddarparu addysg i blant oedran ysgol gynradd sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dod i ben ddydd Llun (Mawrth 17). Mae'r cynigion ariannu ar gyfer y gwasanaeth a nodwyd fel rhan o'r broses gyllideb flynyddol wedi'u dileu gan y cyngor ac mae'r diffyg yn cael ei lenwi o gronfeydd wrth gefn.

“Bydd adborth a dadansoddiad o'r ymgynghoriad yn cael eu trosglwyddo i'r cabinet i'w trafod ymhellach. Nid oes dyddiad wedi'i bennu hyd yn hyn ar gyfer cynnal y drafodaeth honno.” [Cyfieithiad]

Datganiadau i'r wasg

PR 5943 – Ceisio barn ar gynigion ar Anghenion Addysgol Ychwanegol (gweler copi o'r datganiad yn Atodiad 1)

Cafodd y datganiad hwn i'r wasg ei gyhoeddi ar 13 Chwefror 2014 ac fe'i hanfonwyd at y sefydliadau a ganlyn yn y cyfryngau:

- *Hereford Times*
- *Radio Hafren*
- *BBC Online*
- *MyNewtown*
- *Daily Post*
- *Mid Wales Journal*

- *South Wales Evening Post*
- *Western Mail*
- *Shropshire Star*

Sylw yn y wasg

- **18/2/14 Hereford Times Online**

*Changes for Hay-on-Wye's Additional Learning Needs youngsters
Big changes in the way children with Additional Learning Needs are educated
in Hay-on-Wye are being planned from September...
[Datganiad rhagweithiol i'r wasg]*

- **27/2/14 Hereford Times**

*Tudalen 26 – Pupils with ALN 'may go to local school'
Big changes in the way children with Additional Learning Needs (ALN) are
educated in Hay-on-Wye are being planned...
[Datganiad rhagweithiol i'r wasg]*

PR 5947 – Cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar Anghenion Addysgol Ychwanegol (gweler Atodiad 1)

*Cafodd y datganiad hwn i'r wasg ei gyhoeddi ar 19 Chwefror 2014 ac fe'i hanfonwyd
at y sefydliadau a ganlyn yn y cyfryngau:*

- *Hereford Times*
- *Shropshire Star*
- *BBC Online*
- *MyWelshpool*
- *ITV Cymru*
- *County Times*
- *Cambrian News*
- *Oswestry & Border Chronicle*
- *Daily Post*
- *Mid Wales Journal*
- *BBC Newsgathering Wales*
- *South Wales Evening Post*
- *MyNewtown*
- *Western Mail*
- *Brecon & Radnor Express*

Sylw yn y wasg

- **27/2/14 Brecon and Radnor Express**

*Tudalen 3 – Campaigners step up specialist units fight
Further information on specialist education units proposed for closure has been published by Powys County Council...
[Datganiad rhagweithiol i'r wasg]*

- **28/2/14 County Times**

*Tudalen 4 – Have your say on schools
Powys County Council (PCC) has published further information on additional learning needs (ALN) provision in the county's primary schools...
[Datganiad rhagweithiol i'r wasg]*

- **6/3/14 Cambrian News**

*Tudalen flaen – Threat to two special needs units (continues on page three)
Special education support units at primary schools in Machynlleth and Llanidloes will close, if a Powys County Council plan to save almost £500,000 a year goes ahead...
[Datganiad rhagweithiol i'r wasg]*

- **12/3/14 Brecon and Radnor Express Online**

*Powys learning needs consultation deadline looms
A consultation on closing specialist units at Powys primary schools closes this week...
[Datganiad rhagweithiol i'r wasg]*

- **13/3/14 Brecon and Radnor Express**

*Tudalen 2 – ALN deadline
A consultation on closing specialist units at Powys primary schools closed this week...
[Datganiad rhagweithiol i'r wasg]*

- **14/3/14 County Times**

*Tudalen 2 – Consultation
A consultation on closing specialists units at Powys primary schools closes this week...
[Datganiad rhagweithiol i'r wasg]*

Ymddangosodd naw erthygl arall ar y mater yn y cyfryngau. Ni roddwyd cyfle i'r cyngor gyflwyno sylwadau am yr erthyglau isod.

- **6/2/14 Brecon and Radnor Express**

*Tudalen flaen – Fears over school units
Parents of children who require dedicated support in school have hit out at plans to close specialist units within primary schools in Powys...
[Mae'r erthygl yn cyfeirio at Gyngor Sir Powys]*

- **7/2/14 County Times**

*Tudalen 2 – Fury at threat facing special needs units
Concerns have been raised over council plans to shut units for children with additional learning needs...
[Mae'r erthygl yn cyfeirio at Gyngor Sir Powys]*

- **10/2/14 County Times Online**

*Fury at threat facing special needs units
Concerns have been raised over council plans to shut units for children with additional learning needs...
[Mae'r erthygl yn cyfeirio at Gyngor Sir Powys]*

- **10/2/14 News North Wales Online**

*Fury at threat facing special needs units
Concerns have been raised over council plans to shut units for children with additional learning needs...
[Mae'r erthygl yn cyfeirio at Gyngor Sir Powys]*

- **13/2/14 Brecon and Radnor Express**

*Tudalen 2 – Schools campaigner to meet AMs
A campaigner fighting plans to close specialist learning needs units in Powys is due to meet with Assembly Members...
[Mae'r erthygl yn cyfeirio at Gyngor Sir Powys]*

- **14/2/14 County Times**

*Tudalen flaen – Special needs units are a lifeline
Children with special needs will be denied “an absolute lifeline” if council plans to close specialist units are approved, say parents...
[Mae'r erthygl yn cyfeirio at Gyngor Sir Powys]*

- **14/2/14 Mid Wales Journal**

*Tudalen flaen – Concern at bid to axe learning needs units
Concerns have been raised over council plans to shut units for children with additional learning needs in Powys...
[Mae'r erthygl yn cyfeirio at Gyngor Sir Powys]*

- **22/2/14 Western Mail**

*Tudalen 19 – Protest to save primary units
Parents are staging a mass lobby of Powys County Council headquarters to protest against plans to shut specialist units at schools in the county...
[Mae'r erthygl yn cyfeirio at Gyngor Sir Powys]*

- **5/3/14 Cambrian News Online**

*Threat to two special needs units
Special education support units at primary schools in Machynlleth and Llanidloes will close, if a Powys County Council plan to save almost £500,000 a year goes ahead...
[Mae'r erthygl yn cyfeirio at Gyngor Sir Powys]*

Cafwyd cyfanswm o 21 o erthyglau yn y cyfryngau am y pwnc.

Cafodd erthygl am yr ymgynghoriad ei gynnwys hefyd yn rhifyn mis Chwefror cyswllt:connect, sef cylchgrawn y Cyngor i'r staff ac aelodau, a hynny yn y fersiwn bapur ac ar-lein.

Cyfryngau ar-lein a chymdeithasol

| <i>Dyddiad</i> | <i>Pwnc</i> |
|------------------|---|
| 3/2/14 | Lansiwyd yr ymgynghoriad drwy www.powys.gov.uk/dweudeichdweud . Roedd gan yr ymgynghoriad ei dudalen ei hun, yn http://www.powys.gov.uk/index.php?id=16906&L=1 ac mae'r dudalen yn dal i fod ar gael. Mae'r dudalen yn egluro erbyn hyn fod yr ymgynghoriad wedi dod i ben. |
| 3/2/14 – 17/3/14 | Roedd yr ymgynghoriad wedi'i gynnwys ar y carwsél ar dudalen flaen www.powys.gov.uk . |
| 3/2/14 | Cyhoeddiad ar Facebook am yr ymgynghoriad |
| 3/2/14 | Cyhoeddiad ar Twitter am yr ymgynghoriad |
| 25/2/14 | Cyhoeddiad ar Twitter am y penderfyniad ynghylch cyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| 26/2/14 | Cyhoeddiad ar Twitter am yr ymgynghoriad |
| 26/2/14 | Cyhoeddiad ar Facebook am yr ymgynghoriad |
| 26/2/14 | Cyhoeddiad ar Twitter ynghylch cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar-lein |
| 26/2/14 | Cyhoeddiad ar Facebook ynghylch cyhoeddi gwybodaeth bellach |
| 3/3/14 | Cyhoeddiad ar Twitter ynghylch canllaw pobl ifanc yn cyfeirio pobl at dudalen yr ymgynghoriad |
| 12/3/14 | Nodyn ar Twitter i atgoffa am y dyddiad cau |

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd cyfarfodydd â phob cyngor ysgol (lle y mae uned) yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad a chawsant eu harwain gan aelod staff neu'r pennaeth lleol ynghyd ag aelod o'r Gwasanaeth Ysgolion. Defnyddiwyd rhestr o gwestiynau a baratowyd o flaen llaw i geisio sicrhau cysondeb. Roedd disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ymysg aelodau'r cyngor ysgol.

Cyfarfu'r Prif Weithredwr, yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol a Phennaeth Dros Dro Ysgolion hefyd â grŵp ymgyrchu HOOSUP (Hands Off our Special Units Powys) yn Llandrindod.

Ymatebion gan randdeiliaid

Cafodd y Gwasanaeth Ysgolion oddeutu 750 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cyngorydd Jones i ofyn a roddwyd digon o wybodaeth i'r cyhoedd fel y gallai wneud cyfraniad o sylwedd at yr ymgynghoriad, dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn fodlon fod y cyhoedd wedi cael digon o wybodaeth yn hyn o beth, a hynny oherwydd bod dros 750 o ymatebion wedi dod i law.

12.17 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant oddi wrth y Cyngorydd Sir Avril York

A all yr aelod portffolio roi gwybod i ni faint o ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cael eu rhedeg gan Benaethiaid Dros Dro, faint o'r Penaethiaid Dros Dro hyn sydd wedi bod yn y swydd am fwy na dau dymor a faint o weithwyr nad ydynt yn Benaethiaid sy'n cynnal neu sy'n gweithio tuag at gymhwyster CPCP (NPQH)?

Ar ddechrau tymor yr haf, mae 18 o ysgolion cynradd sydd â Phenaethiaid dros dro. O'r 18 hyn, mae 8 yn rhannu Pennaeth ag ysgol arall.

Bu nifer o benodiadau diweddar, a rhagwelir y bydd 11 o ysgolion cynradd ym mis Medi 2014 â Phenaethiaid dros dro, ac y bydd 6 o'r rhain â Phennaeth a rennir.

Ar hyn o bryd, mae un Pennaeth dros dro yn y sector uwchradd, a rhagwelir na fydd dim ym mis Medi gan fod y Pennaeth dros dro hwn wedi'i benodi'n Bennaeth yn yr ysgol bob oed newydd ym Machynlleth.

O ran CPCP, roedd 7 ymgeisydd ym Mhowys ar gyfer rownd 2013-14, a dim ond 2 a dderbyniwyd i gael eu hasesu: un ar lefel gynradd ac un ar lefel uwchradd.

Mae cofnodion Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn nodi bod 41 ym Mhowys sydd â chymwyster CPCP ers ei sefydlu ddiwedd y 1990au.

Mae 2 o'r rhain yn y sector ysgolion arbennig, 15 yn y sector uwchradd, 21 yn y sector cynradd, ac mae 3 nad yw eu sefyllfa wedi'u nodi.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd York i ofyn pa gynlluniau sydd i wella'r sefyllfa, cydnabu'r Aelod Portffolio fod y Cyngor yn wynebu argyfwng o ran arweinyddiaeth mewn ysgolion, wrth i nifer o benaethiaid ddod yn agos i'w cyfnod ymdeol. Roedd y gwasanaeth yn bwriadu denu ymgeiswyr newydd a sicrhau y gellir dyrchafu o'r tu mewn drwy roi cyfleoedd i staff gael cyfrifoldebau rheoli.

12.18 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Avril York

A all yr aelod portffolio roi gwybod i ni am nifer yr erlyniadau a'r costau cyfreithiol cysylltiedig, yn flynyddol, a ddaw yn sgil y Swyddfa Masnachu Teg yn erlyn asiantau tai am fethu â gweithredu hyd at y NTSEAT dros y tair blynedd diwethaf?

Rwyf yn atgoffa'r aelodau mai rôl Gwasanaethau Safonau Masnach ar draws y DU yw ymchwilio i werthwyr tai, a'u herlyn, pan fo'n briodol, pan fyddant yn torri Deddf Gwerthwyr Tai 1979. Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn galluogi gwasanaethau Safonau Masnach i gyfeirio rhai achosion at ein Tîm Gwerthwyr Tai Cenedlaethol newydd sydd wedi'i leoli yng Nghyngor Sir Powys (mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi dod i ben ers 1 Ebrill 2014), pan fernir bod gwerthwr tai yn anghymwys i fasnachu ac i ofyn i'r tîm ystyried rhybuddio neu wahardd masnachwyr o'r fath rhag ymwneud â phroffesiwn Gwerthu Tai. Felly, rydym yn cael ffeiliau, yn ceisio sylwadau gan y sawl sydd â rhan mewn achosion, ac yn gweinyddu penderfyniad. Mae'r penderfyniadau hyn yn destun apeliadau, ond mewn cyfnod hwy nag 20 mlynedd ni chlywyd unrhyw achos ynghylch penderfyniadau'r Swyddfa Masnachu Teg yn y Llys Apêl. O blith y penderfyniadau gwahardd yn 2014 (a restrir isod), mae 3 yn waharddiadau sydd wedi'u cadarnhau, mae 3 yn rhai y cyflwynwyd apêl yn eu cylch, ac mae 5 ohonynt yn dal i fod yn destun y cyfnod pan ellir apelio.

O ran camau gweithredu blaenorol, mae Deddf Gwerthwyr Tai 1979 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl weithgarwch gael ei nodi ar Gofnod Cyhoeddus (mae dolen yn Atodiad A isod at y dudalen we) ac mae hyn yn dangos, yn y 3 blynedd diwethaf, fesul blwyddyn, fod y Swyddfa Masnachu Teg wedi gwahardd 11, 10 a 10 o werthwyr tai. Ni allwn grybwyll y costau cyfreithiol oherwydd nid 'erlyniadau' yw'r rhain. Yn amlwg, yn y Swyddfa Masnachu Teg, byddai cymorth cyfreithiol mewnol wedi'i ddyrannu i'r ymchwiliadau hyn, a'r Swyddfa Masnachu Teg a fyddai wedi cadw unrhyw ddata yn hyn o beth; o ganlyniad, nid yw ffigurau manwl gywir ar gael erbyn hyn. Byddai'r Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol, wrth benderfynu ar y dyraniad o £178K i'r awdurdod lleol a oedd yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon, wedi gwerthuso'n ofalus y costau o redeg y gwasanaeth (gam gynnwys costau cyfreithiol)

a dyma oedd sail y dyraniad hwnnw. Rydym hefyd wedi cael cadarnhad na fydd ein dyraniad grant yn destun toriadau dros y 3 blynedd nesaf.

Bydd y Tîm Gwerthwyr Tai Cenedlaethol yn darparu adroddiad bob 3 mis i'r aelod portffolio dros Wasanethau Rheoleiddio a Bwrdd Llywodraethu y Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol, ac mae wedi cynnig hyn i'r Pwyllgor Craffu. Mae'r cynnig hwn ar gael o hyd.

Ymrwymodd yr Arweinydd i ddarparu ateb i'r Cyngorydd York i'w chwestiwn atodol i ofyn a fyddai'r gyllideb a ddarperir gan y Llywodraeth yn cyfyngu ar nifer yr erlyniadau, ac os felly a fyddai hyn yn darparu trefn fonitro effeithiol.

| | | |
|-----|------------|-------------|
| 13. | GOHEBIAETH | CC51 – 2014 |
|-----|------------|-------------|

13.1 Cymhorthdal Ystafell Sbâr

Cafodd y Cyngor lythyr oddi wrth yr Arglwydd Freud, y Gweinidog dros Ddiwygio Lles, a anfonwyd mewn ymateb i lythyr oddi wrth y Cyngor ynghylch y Cymhorthdal Ystafell Sbâr.

13.2 Cefnogaeth Awyr yn Ardal Heddlu Dyfed Powys

Cafodd y Cyngor lythyr gan y Gwir Anrhydeddus Damien Green AS, Gweinidog y Wladwriaeth dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol a anfonwyd mewn ymateb i lythyr oddi wrth y Cyngor ynghylch cefnogaeth awyr ar gyfer Heddlu Dyfed Powys.

PENDERFYNWYD y byddai llythyr pellach yn cael ei anfon yn cyfleu pryderon y Cyngor na fyddai awyren ag adennydd sefydlog yn darparu gwasanaeth digonol ym Mhowys.

L.R.E. DAVIES
Cadeirydd